Awdurdod Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Adroddiad yr Ymgynghoriad ar Gynllun Gweithredu Lleihau Risg Drafft 2009/10

Medi 2008
Adran Cynllunio Strategol a Pherfformiad
Pencadlys y Gwasanaeth

C y n n w y s

		Tudalen
1.0	Crynodeb Gweithredol	2
2.0	Cyflwyniad a Phwrpas yr Adroddiad	5
3.0	Strategaeth yr Ymgynghoriad a Methodoleg	6
3.1	Yr Ymgynghoriad – Budd-ddalwyr Allanol	7
3.2	Yr Ymgynghoriad – Budd-ddalwyr Mewnol, Staff a Chyrff Cynrychiolaidd	8
3.3	Strategaeth y Cyfryngau	8
4.0	Trafodaeth Anffurfiol gyda'r Cynulliad Cymreig	8
5.0	Proffil o Ymatebwyr	9
6.0	Sut Aethpwyd Ati i Ddadansoddi'r Ymatebion	11
7.0	Canlyniadau'r Ymgynghoriad – Cynllunio i Leihau Risg	12
8.0	Canlyniadau'r Ymgynghoriad – Cynigion ar gyfer 2009/2010	14
8.1	Criwiau Un Pwrpas ar gyfer Peiriannau Arbennig	14
8.2	Gorsafoedd Criw Dydd	17
9.0.	Sylwadau Am Gynllun Gweithredu Lleihau Risg y Llynedd	21
10.0	Casgliadau	22

1.0 Crynodeb Gweithredol

Mae'r Awdurdod bob amser yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarparwn i helpu i wneud cymunedau'n fwy diogel. Rydym ni eisoes yn gwneud ein gwaith yn dda, ond rydym ni eisiau ei wneud yn well. Fe wnaeth yr Awdurdod gymeradwyo ei Gynllun Lleihau Risg cyntaf, yn dwyn y teitl 'Gwneud Ein Cymuned Yn Fwy Diogel' ym mis Hydref 2006. Mae'r Cynllun yn cwmpasu cyfnod o 3 blynedd, rhwng 2007-2010, a chafodd ei ddatblygu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru – "Cymru Gwlad Ddiogelach" a'r "Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru". Cyhoeddwyd cynlluniau gweithredu blynyddol, i adrodd am gynnydd ac i ymgynghori ynghylch meysydd penodol ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Y Cynllun Gweithredu Lleihau Risg Drafft ar gyfer 2009/2010 yw'r cynllun gweithredu blynyddol olaf yn y cyfnod adroddi tair blynedd hwn. Roedd y cynllun yn adrodd am gyflawniadau'r Awdurdod, yn erbyn ei amcanion allweddol, yn cynnwys dau faes o ddiddordeb sylweddol a gymeradwywyd gan yr Awdurdod yn ystod yr ymgynghoriad llynedd. Ymgynghorwyd ynghylch dau gynnig penodol ar leoli staff, sef adolygu'r opsiynau criwio wedi cyflwyno peiriannau newydd yn ardal Abertawe, ac i ystyried newid yr amserau cychwyn a gorffen mewn gorsafoedd criw dydd.

Mae'n bleser mawr gan yr Awdurdod i nodi'r lefel o ddiddordeb mewn lleihau risg gan ein holl fudd-ddalwyr. Bydd y ddogfen hon yn adrodd am yr ymatebion, a sut mae'r Awdurdod wedi defnyddio'r wybodaeth i gytuno ar ei strategaeth ar gyfer 2009/2010. Darperir gwybodaeth am:

a. Ymatebion i'r broses o Gynllunio i Leihau Risg

b. Ymatebion i'r ddau faes a ymgynghorwyd yn eu cylch yn 2009/2010

c. Sylwadau am brosiectau sy'n parhau

a. Cynllunio i Leihau Risg

Adroddwyd am y cynnydd o safbwynt amcanion yr Awdurdod a'i gyflawniadau ym mhob rhan o leihau risg yn y cynllun gweithredu drafft. Croesawyd yr wybodaeth, a derbyniodd yr Awdurdod ymatebion cadarnhaol iawn gan fudd-ddalwyr, yn cynnwys ein partneriaid a fanteisiodd ar y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad. Yn ogystal, derbyniwyd sylwadau negyddol am ein hamcanion a'n trefniadau ar gyfer cynllunio i leihau risg. Mae'r rhain wedi eu crynhoi yn yr adroddiad hwn.

b. Cynigion ar gyfer 2009/2010

Mae'r Awdurdod eisiau sicrhau fod y bobl gywir yn y lle cywir ar yr amser cywir. Cydnabuwyd fod yna lawer i'w gyflawni yn y maes hwn, ac y byddai'r gwaith yn ymestyn i'r cylched cynllunio i leihau risg nesaf. Fodd bynnag, roedd dau faes o leoli staff y gellid eu datblygu yn 2009/2010, ac fe ymgynghorwyd yn eu cylch.

- **Criwiau Un Pwrpas ar gyfer Peiriannau Arbennig yn Ardal Abertawe**

  Darparwyd peiriant achub cyrraedd yn uchel cyfun newydd, sy'n cyfuno gallu diffodd tân ac achub gyda darpariaeth cyrraedd yn uchel, yng ngorsaf dân Gorllewin Abertawe. Mae hyn yn dileu'r angen am y peiriant cyrraedd yn uchel presennol, a leolir yng ngorsaf dân Treforys, a bydd yn cael ei waredu yn 2008/2009. Oherwydd bydd y peiriant cyrraedd yn uchel yn cael ei waredu, a bod Pympiau Achub yn cael eu darparu yn Ardal Reoli Abertawe, mae angen adolygu'r opsiynau criwio a'r ddarpariaeth achub arbenigol.

  Mae'r Awdurdod eisoes wedi penderfynu darparu peiriannau achub cyrraedd yn uchel cyfun, ac i fuddsoddi mewn darparu pympiau achub ym mhob gorsaf dân, ac mae'r trefniadau yma'n mynd yn eu blaenau. Derbyniwyd sylwadau am addasrwydd y trefniadau yma. Fe wnaeth yr aelodau ystyried yr ymatebion, i sicrhau perthnasedd penderfyniadau a wnaed eisoes ac roeddent yn fodlon gyda'r trefniadau a gymeradwywyd.

  Dim ond nifer fach o ymatebwyr gynigodd sylwadau ar y cynnig i adolygu'r trefniadau criwio wedi cyflwyno'r cerbydau newydd, a daeth y mwyafrif o'r rhain oddi wrth aelodau o staff a'u Cyrff Cynrychiolaidd. Roedd rhai ymatebwyr yn haeru bod angen cadw criw ymroddedig ar gyfer peiriannau arbennig, ond wedi ystyried y sylwadau yma daethpwyd i'r casgliad bod y trefniadau newydd yn briodol ac yn hydwyth. Derbyniwyd rhai sylwadau cadarnhaol, yn dynodi bod adolygu'r trefniadau criwio'n beth call nawr bod y newidiadau o gynlluniau'r blynyddoedd diwethaf yn cael eu cyflawni.

  Fe wnaeth yr Awdurdod ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd am y cynnig hwn. Ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth i ddynodi na ddylai'r newidiadau i'r opsiynau criwio fynd yn eu blaenau, a chymeradwyodd yr Awdurdod y byddai'r adolygiad hwn yn cael ei gynnal yn 2009/2010.

- **Amserau Cychwyn a Gorffen ar gyfer Gorsafoedd Criw Dydd**

Mae gan orsafoedd Criw Dydd ddiffoddwyr tân llawn amser ar ddyletswydd yn yr orsaf yn ystod oriau'r dydd, a thu allan i'r oriau yma mae'r criwiau'n ymateb o'u cartrefi. Cynigwyd y dylai'r oriau o argaeledd llawn amser adlewyrchu'r amserau gweithgarwch digwyddiad prysuraf. Mae amserau cychwyn a gorffen gwahanol ar gyfer gorsafoedd criw dydd yn bodoli ar draws y Gwasanaeth, a cheisiwyd barnau ar ddarparu gwelliannau i'r cyflenwad criw dydd.

Derbyniwyd nifer fawr o ymatebion, yn rhoi barnau am drefniadau parthed â'r amserau dyletswydd mwyaf effeithiol ar gyfer staff criw dydd, a derbyniwyd nifer sylweddol o ymatebion am lawer o ffactorau eraill sy'n cyfrannu at effeithiolrwydd gweithio ar ddyletswydd criw dydd. Pwysleisiwyd y proffiliau gwahanol a'r lefelau o weithgarwch rhwng y gorsafoedd, ac adroddwyd am y trefniant gwahanol ar gyfer darparu gwaith criw dydd a chyflenwad wrth gefn.

Yn ogystal, derbyniwyd ymatebion am y mater o leoli staff yn gyffredinol. Roedd hyn yn cefnogi barn yr Awdurdod fod y trefniadau criwio dydd yn effeithio ar y trefniadau ar gyfer cyflenwi wrth gefn, a bod angen edrych ar sut maen nhw'n rhyngweithio â'i gilydd.

Mae ein staff mewn gorsafoedd criw dydd wedi darparu ymatebion, fel unigolion ac fel Gorsafoedd, ac maent wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr at y broses o ymgynghori. Darparwyd argymhellion manwl ac ystyriol, ac mae angen ymgorffori'r barnau yma mewn adolygiad mwy manwl a phellgyrhaeddol o'r modd cyffredinol y mae criwiau dydd yn gweithredu ar draws ardal y gwasanaeth.

Yng ngoleuni'r sylwadau a wnaed gan ein staff criw dydd mewn ymateb i'r cynnig hwn, ac i gydnabod bod gwahaniaeth mawr yn bodoli mewn trefniadau dyletswydd criw dydd, roedd yr Awdurdod yn teimlo nad oedd hi'n briodol ystyried newid yr amserau cychwyn a gorffen ar gyfer gorsafoedd criw dydd mewn unigedd. Dylid ymgymryd ag adolygiad cynhwysfawr o'r holl drefniadau sy'n bodoli i gefnogi criwiau dydd yn 2009/2010, er mwyn darparu'r cyflenwad gorau, yn unol â'r risg ac anghenion y gymuned. Roedd yr Awdurdod yn cydnabod, oherwydd y gwahanol broffiliau risg a gweithgarwch ar draws ardal y Gwasanaeth, ei bod hi'n bosib y bydd trefniadau pwrpasol yn cael eu hystyried er mwyn darparu'r ateb gorau.

- **c. Sylwadau am Gynlluniau Gweithredu Lleihau Risg Blaenorol**

Derbyniwyd ymatebion yn ymwneud â rhannau o'r Cynllun a oedd tu allan i'r ymgynghoriad eleni. Gwnaethpwyd nifer o sylwadau am y newidiadau i'r patrwm sifft mewn gorsafoedd criw sifft, ac am y Prosiect Cymoedd Mwy Diogel. Cafodd yr holl sylwadau a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad eu hystyried gan yr Awdurdod, a benderfynodd y dylid anfon yr ymatebion yma i'r gweithgor neu'r swyddog priodol, er mwyn cyfarwyddo'r prosiectau sydd ar waith.

2. Cyflwyniad a Phwrpas yr Adroddiad

Yn ei gyfarfod ar yr 21ain o Ebrill 2008, fe wnaeth Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru gymeradwyo ei Gynllun Gweithredu Lleihau Risg Drafft ar gyfer 2009/2010, yr olaf yn y cyfnod adroddi o dair blynedd ar gyfer 2007/2010. Mae'r cynllun yn amlinellu sut all Gwasanaeth Tân ac Achub yr Awdurdod wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'i adnoddau, lleihau'r nifer o danau ac achub mwy o fywydau. Mae'r cynllun hwn yn parhau i wella ein gwaith atal a diogelu yn ein cymunedau, wrth gynnal trefniadau ymateb i argyfwng cyflym, effeithlon ac effeithiol, ac mae'n adrodd am gyflawniadau'r Awdurdod yn y meysydd yma. Y ddau brif faes i ymgynghori yn eu cylch yn 2009/10 oedd adolygu'r opsiynau criwio yn ardal Abertawe, wedi cyflwyno'r peiriannau newydd, ac i adolygu'r amserau cychwyn a gorffen mewn gorsafoedd criw dydd i gyd-fynd â'r adegau pan fod risg ar ei uchaf.

Fel rhan o'r broses o baratoi Cynllun Lleihau Risg, cychwynnodd yr Awdurdod ar broses o ymgynghori ar raddfa fawr, i ganfod barnau'r cyhoedd, budd-ddalwyr allweddol a staff am y cynllun gweithredu drafft a'i gynigion allweddol. Dosbarthwyd dros 900 o gopïau o'r Cynllun Gweithredu Lleihau Risg Drafft i fudd-ddalwyr hysbys, ac roedd ar gael yn eang ar wefan y Gwasanaeth Tân ac Achub, mewn llyfrgelloedd, ac ym mhob gorsaf dân a phwyntiau cyflawni gwasanaeth eraill. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol â gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chynllunio i Leihau Risg a modelau Arfer Gorau.

Dosbarthwyd a hyrwyddwyd y cynllun yn eang, a rhoddwyd copïau ychwanegol o'r cynllun i unrhyw grŵp neu unigolyn ar gais. Derbyniwyd 237 o ymatebion yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad. Mae'r Awdurdod Tân yn ddiolchgar iawn i bawb a rodd o'u hamser ac a ymdrechodd i roi eu barnau i ni am y cynigion, a chafodd yr holl ymatebion eu hystyried wrth baratoi'r adroddiad.

3. Strategaeth yr Ymgynghoriad a Methodoleg

Rhyddhawyd y Cynllun Gweithredu Lleihau Risg Drafft ar y 6ed o Fai 2008, ac yn dilyn hynny cafwyd cyfnod o ddeuddeg wythnos o ymgynghori nes y 29ain o Orffennaf 2008. Datblygwyd cynllun cyfathrebu cynhwysfawr, er mwyn cyrraedd cymaint o fudd-ddalwyr ag oedd yn bosib. Roedd hyn yn rhan bwysig o'r prosiect yn gyffredinol, a oedd yn cynnwys tair prif elfen, sef:

- **3.1 Ymgynghoriad**

Paratowyd cynllun yr ymgynghoriad yn unol â chanllawiau Cynllunio i Leihau Risg Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chôd enghreifftiol swyddfa'r cabinet. Defnyddiwyd modelau arfer da Cymru hefyd. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn bartner yn Fframwaith Ymgynghori, Ymwneud ac Ymrwymo Abertawe, sy'n rhoi cymorth ac sy'n hyrwyddo arfer gorau ar gyfer digwyddiadau ymgynghori.

3.1.1 Budd-ddalwyr Allanol

Roedd yr Awdurdod yn ystyried mai'r sefydliadau canlynol oedd ei fudd-ddalwyr allanol allweddol, a gofynnwyd iddynt am eu barnau manwl ar y cynigion a oedd yn gynwysedig yn y cynllun drafft, naill ai fel unigolion neu fel grŵp neu sefydliad cynrychiolaidd. Mae'r rhestr o fudd-ddalwyr yn gyson gyda Chanllawiau'r Cynulliad Cymreig.

- Aelodau o'r Cyhoedd
- Aelodau o Staff
- Awdurdodau Unedol Cyfansoddol a'u Prif Weithredwyr
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Aelodau Seneddol ac Aelodau Cynulliad
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Sir Benfro
- Awdurdodau Tân sy'n ffinio
- Cyrff Cynrychiolaidd
- Heddlu'r De a'r Gogledd a Dyfed Powys ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Gwylwyr y Glannau Ei Mawrhydi a grwpiau eraill
- Partneriaethau Diogelwch Cymunedol
- Mudiadau Gwirfoddol oddi fewn i ardal yr Awdurdod
- Grwpiau ethnig lleiafrifol oddi fewn i ardal yr Awdurdod
- Y Siambr Fasnach a mudiadau Masnachu yn cynrychioli ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Asiantaeth yr Amgylchedd

3.1.2 Gwefan

Mae gan yr Awdurdod adran Lleihau Risg ar ei wefan, a rhoddwyd lle amlwg i'r Cynllun Gweithredu Lleihau Risg Drafft ar y wefan hon, ac roedd yn galluogi i ymatebion i gael eu cyflwyno trwy gyfrwng electronig. Roedd gwybodaeth gefndir ar y broses a Chynlluniau Lleihau Risg blaenorol yn gynwysedig ar y safle hefyd, a oedd hefyd yn rhoi mynediad i ddatganiadau i'r wasg ar y cynllun.

3.1.3 Dosbarthu Cynllun Gweithredu Lleihau Risg Drafft 09/10

Cysylltodd yr Awdurdod â'r holl fudd-ddalwyr ym mis Ebrill, i'w hysbysu y byddai'r Cynllun Gweithredu Lleihau Risg Drafft ar gyfer 09/10 ar gael i'w weld ar y wefan o'r 6ed o Fai 2008, cyn i'r copïau printiedig gael eu dosbarthu. Gwnaethpwyd hyn er mwyn rhoi cymaint o rybudd ag oedd yn bosib ac i osgoi byrhau cyfnod yr ymgynghoriad oherwydd rhaglenni cyfarfodydd Cyngor.

Diweddarwyd y gronfa ddata o fudd-ddalwyr allweddol, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ymgynghori, a dosbarthodd yr Awdurdod gopïau caled printiedig o'r ddogfen ddrafft i'r holl fudd-ddalwyr adnabyddedig. Roedd y ddogfen yn cynnwys holiadur ymateb i'r ymgynghoriad, i roi cyfle i'r budd-ddalwyr i gyflwyno eu sylwadau. Dosbarthwyd copïau o'r cynllun a'r ffurflen ymateb i brif lyfrgelloedd y Sir, a drefnodd i'r cynllun gael ei ddosbarthu i lyfrgelloedd llai a llyfrgelloedd symudol yn ardal yr Awdurdod, er mwyn rhoi mynediad eang i'r cyhoedd. Roedd y datganiad i'r wasg, a oedd yn rhoi gwybodaeth am yr ymgynghoriad, yn cynnwys gwybodaeth am ble a sut i gael mynediad i'r cynllun.

3.1.4 Budd-ddalwyr Mewnol, Staff a Chyrff Cynrychiolaidd

Ar ddechrau'r deuddeg wythnos o ymgynghori, fe wnaeth memoranda'r Prif Swyddog Tân i staff adrodd am y cynigion i Gynllunio i Leihau Risg. Rhoddwyd copi o'r Cynllun Gweithredu Lleihau Risg Drafft i bob gorsaf dân a'r adrannau cefnogi, a hysbyswyd y staff y gellir gweld y ddogfen ar ffurf electronig, trwy gyfrwng y rhwydwaith Gweinyddwr Gwybodaeth Fusnes mewnol. Rhoddwyd copi eu hunain o'r cynllun i'r holl benaethiaid adran gweithredol a heb lifrai.

Ymgynghorwyd ynghylch y cynigion gyda'r holl gyrff cynrychiolaidd cydnabyddedig oddi fewn i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Derbyniwyd ymatebion manwl oddi wrth Undeb y Brigadau Tân (FBU) ac Undeb y Diffoddwyr Tân Wrth Gefn (RFU).

3.2 Strategaeth y Cyfryngau

Defnyddiwyd cymaint o'r cyfryngau ag oedd yn bosib, er mwyn darparu cyswllt rhagweithiol i'r cyhoedd, ac i sicrhau fod cymunedau'n cael eu diweddaru am gyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Lleihau Risg Drafft, a'r cynigion allweddol a'r manteision o ran diogelwch yn y gymuned. Hefyd, defnyddiwyd y cyfryngau i fanylu ynghylch y broses o ymgynghori, a sut allai'r cyhoedd gyfrannu at baratoi'r cynllun terfynol.

- Cyhoeddodd yr Awdurdod ddatganiadau i'r wasg i holl ffynonellau'r cyfryngau, er mwyn lansio'r RRP drafft ar ddechrau'r cam ymgynghori. Rhoddwyd cyfweliadau i'r wasg, ar gais. Diweddarwyd gwefan y Gwasanaeth trwy gydol datblygiad y cynllun. Cyhoeddwyd datganiadau i'r wasg trwy gydol yr ymgynghoriad, mewn ymateb i ymholiadau ac erthyglau yn y cyfryngau. Dosbarthwyd cyfres o ddatganiadau i'r wasg â thema i'r cyfryngau trwy gydol y cam ymgynghori, er mwyn cynnal proffil uchel lleihau risg.

- Roedd Swyddog y Wasg a CC yn gyfrifol am fonitro'r cyfryngau trwy gydol y broses o ymgynghori, a hysbysu'r Aelodau a'r swyddogion am adroddiadau ac unrhyw faterion a oedd yn deillio ohonynt. Bydd datganiad i'r cyfryngau'n cael ei ryddhau pan fydd yr Awdurdod wedi cytuno ar, a chyhoeddi'r, cynllun terfynol, er mwyn adrodd am ganlyniadau'r ymgynghoriad.

3.3 Cyfnewid Gwybodaeth

Mae cyfnewid gwybodaeth yn cynnwys cyfnewid gwybodaeth gyffredinol yn eang, a allai amlygu wrth ddatblygu'r Cynllun Lleihau Risg.

Dull ansoddol o ymgynghori a ddefnyddiwyd yn bennaf. Derbyniwyd mwyafrif yr wybodaeth trwy gyfrwng ymatebion ar y we ac ar holiaduron. Hefyd, cofnodwyd y sylwadau mewn un cyfarfod a fynychwyd. Lluniwyd y broses hon i annog cyfnewid syniadau'n agored ac rydym wedi dwyn i ystyriaeth fwyafrif yr ymatebion am rai o'r materion a gafodd eu crybwyll. Ni ellir ardystio'r darganfyddiadau a adroddwyd ar lefel o hyder penderfynedig fel rhai sy'n cynrychioli holl drigolion Canolbarth a Gorllewin Cymru, ond roedd y dulliau a ddefnyddiwyd i ymgynghori'n caniatáu sylwadau gan drawstoriad eang o bobl.
Defnyddiodd yr Awdurdod amryw o ddulliau i ymgynghori gyda budd-ddalwyr. Manylir ynghylch y rhain isod:

4.0 Trafodaeth gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru

Fel rhan o ganllawiau Cynllun Lleihau Risg Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae'n ofynnol i'r Awdurdod i gwrdd â'r Gweinidog i drafod y cynllun. Fe wnaeth y Gweinidog ohebu gyda'r Awdurdod parthed â'r Cynllun Drafft, a chyfarfu gyda Chadeirydd yr Awdurdod, y Prif Swyddog Tân ac uwch swyddogion ym mis Medi. Rhoddodd y cyfarfod gyda'r Gweinidog gyfle i'r Cadeirydd i roi crynodeb iddo o gyflawniadau'r Awdurdod ac i drafod canlyniadau'r ymgynghoriad hwn.

5.0 Proffil o Ymatebwyr

Er mwyn derbyn ymatebion i gynigion yr Awdurdod ar leihau risg, dosbarthwyd holiaduron gyda'r cynllun, a oedd yn galluogi'r ymatebwyr i roi eu sylwadau. Yn ogystal, roedd y ffurflen ymateb hon ar gael ar wefan yr Awdurdod, er mwyn rhoi cymaint o gyfleoedd i ymateb ag oedd yn bosib. Yn arwyddocaol, derbyniwyd mwy na hanner yr ymatebion ar ffurf electronig.

Roedd y ffurflen yn cynnwys adran ddewisol i gofnodi manylion am yr ymatebydd ac, os yn briodol, y sefydliad yr oeddent yn ei gynrychioli. Roedd hyn yn ein galluogi i ddadansoddi nifer a math yr ymatebwyr, a ph'un ai eu bod yn cyflwyno sylwadau personol neu'n ymateb ar ran sefydliad. Isod, ceir crynodeb o broffil y 237 o ymatebwyr a sut y cyflwynwyd eu sylwadau.

Math o Ymatebydd	
Aelod Cynulliad	0
Aelod o Awdurdod Lleol	4
Cynghorau Tref a Chymuned	28
Corff Cynrychiolaidd	2
Awdurdod Iechyd	3
Diwydiant / Masnach	3
Awdurdod Unedol	3
Swyddog Llywodraeth Leol	2
Aelod o'r Gwasanaeth Tân	152
Aelod o'r Cyhoedd	35
Gwasanaeth Brys Arall	1
Arall	4
Cyfanswm	237



Sut dderbyniwyd yr ymateb	
E-bost	23
Gwefan	118
Llythyr	35
Personol (cyfarfod)	1
Holiadur	58
Ffacs	2
Cyfanswm	237



5.1 Deisebau

Derbyniwyd deiseb ac arni 1,920 o lofnodion, yn gwrthwynebu'r cynnig i adleoli'r ail beiriant tân o Rydaman i'r orsaf dân gymunedol yn Ardal Dyffryn Aman Uchaf. Roedd y ddeiseb yn cyfeirio at agwedd o'r Prosiect Cymoedd Mwy Diogel, a gymeradwywyd gan yr Awdurdod yn dilyn ymgynghoriad 2008/2009. Derbyniodd ac ystyriodd yr Awdurdod y ddeiseb, fel rhan o ymateb y gymuned i brosiectau lleihau risg a oedd yn parhau, a bydd yn cael ei hystyried ymhellach gan Fwrdd y Prosiect Cymoedd Mwy Diogel.

5.2 Cymhareb o Ymatebion a Dderbyniwyd

Er mwyn dangos y gymhareb o ymatebion a dderbyniwyd gan fudd-ddalwyr, o gymharu â'r nifer o ddogfennau a ddosbarthwyd, mae'r tabl isod yn rhoi gwybodaeth am y prif grwpiau o ymatebwyr. Yn ogystal â'u hanfon yn uniongyrchol i fudd-ddalwyr, cafodd y cynllun ei hysbysebu'n eang ac roedd ar gael ar wefan yr Awdurdod. Felly, darperir yr wybodaeth yma fel amcan yn unig o argaeledd y cynllun.

Math o Ymatebydd	Nifer o gynlluniau a ddosbarthwyd	Nifer o ymatebion a dderbyniwyd.
Aelod o'r Gwasanaeth Tân	Anfonwyd o leiaf 1 Cynllun i bob gorsaf ac adran dân. Nifer amcanol o staff 1355	152
Cynghorau Tref a Chymuned	Dros 370	27
Aelod o'r Cyhoedd	Rhoddwyd copïau ym mhob llyfrgell Cafodd y Cynllun ei hysbysebu'n eang yn y wasg ac ar y wefan	35
Aelod Etholedig o Awdurdod Lleol	Arweinwyr Cyngor y 6 Awdurdod Unedol	4
Aelod Cynulliad	21	0
Aelod Seneddol	12	0
Awdurdod Unedol	6	3
Corff Cynrychiolaidd	6	2

5.3 Ymatebion Diweddar

Derbyniodd y Gwasanaeth 2 ymateb hwyr yn unig, ac ystyriwyd y sylwadau yma ond ni fyddwn yn adrodd yn ffurfiol yn eu cylch oherwydd iddynt ddisgyn tu allan i'r cyfnod o ymgynghori.

6.0 Sut Aethpwyd Ati i Ddadansoddi'r Ymatebion

Derbyniwyd mwyafrif yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr holiaduron a ddarparwyd gyda'r cynllun ac ar y wefan. Roedd yr holiadur yn darparu adran wag ar gyfer pob cynnig, er mwyn i'r ymatebwyr fedru cofnodi eu sylwadau. Cofnodwyd sylwadau cyffredinol am gynllunio i leihau risg yn ogystal.

Ni wnaeth rhai o'r ymatebwyr gwblhau'r holiadur, ond fe wnaethant anfon e-bost, llythyr neu adroddiad yn cynnwys eu hymateb. Hefyd, cofnodwyd sylwadau mewn cyfarfod a fynychwyd gan uwch swyddogion. Defnyddiodd yr Awdurdod system arolwg ar lein i gadw'r ymatebion yn annibynnol.

Dadansoddwyd yr ymatebion i'r cynigion yma, ac adroddwyd y pwyntiau a gafodd eu crybwyll trwy grwpio prif themâu'r ymatebion, i adlewyrchu'r maes penodol a oedd yn peri pryder. Dangosir y nifer o ymatebwyr a wnaeth sylwadau, ynghyd â'u proffil, i arddangos y nifer o ymatebodd ar gyfer pob maes penodol o bryder.

Mae'r adroddiad hwn yn ceisio crynhoi'r ymatebion, yn gywir ac yn deg, a chryfder y teimlad ar gyfer pob maes o bryder, er mwyn adlewyrchu'n llawn yr ymateb i'r broses o ymgynghori. Dangosir ymateb y Gwasanaeth i bob maes o bryder er mwyn rhoi safbwynt cytbwys. Bydd y Cynllun Gweithredu Lleihau Risg terfynol yn cael ei ddatblygu o ganlyniad i'r ystyriaeth a roddir gan yr Awdurdod i'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

7.0 Canlyniadau'r Ymgynghoriad – Cynllunio i Leihau Risg

Roedd y Cynllun Gweithredu Lleihau Risg Drafft hwn yn adrodd am gyflawniadau'r Awdurdod ym mhob rhan o leihau risg. Dosbarthwyd y ddogfen i amrywiaeth eang o fudd-ddalwyr, yn cynnwys ein partneriaid, ac mae hyn wedi rhoi cyfle iddynt i gynnig sylwadau am ein cyflawniadau.

Rhoddodd yr ymatebion yma gadarnhad i'r Awdurdod fod ei amcanion o ran lleihau risg, yn enwedig lleihau gwrthdrawiadau ar y ffordd, llosgi bwriadol a gweithio gyda phlant a phobl ifanc, yn derbyn cymeradwyaeth, a bod pobl yn ystyried eu bod yn helpu i wneud ein cymunedau'n fwy diogel. Darparwyd gwybodaeth werthfawr gan asiantaethau megis Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Ymddiriedolaeth Prawf Dyfed Powys, Undeb y Diffoddwyr Tân Wrth Gefn, Ymddiriedolaethau Iechyd, Awdurdodau Unedol, Cynghorau Cymuned ac aelodau o'r cyhoedd. Bydd y sylwadau yma'n cael eu cynnwys yn ein cynllun terfynol, a bydd yn cyfarwyddo ein strategaeth lleihau risg yn y dyfodol.

Isod, ceir crynodeb o rai o'r sylwadau a dderbyniwyd:

Sylwadau Cadarnhaol ar Leihau Risg

'Rydym yn croesawu mesurau i leihau'r risg yn y cymunedau a wasanaethwn, yn ogystal â'r galluoedd uwch a gynigwch i ymateb i'r amrywiol sialensiau mae pob un ohonom yn eu hwynebu' - *Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru*

'Nid yw gwasanaeth tân Aberdaugleddau wedi dioddef unrhyw farwolaethau mewn tanau dros y 16 mlynedd diwethaf... da iawn nhw'– *Aelod o'r Cyhoedd*

'Rydym yn falch iawn gyda'r strategaeth i leihau tanau yn y cartref – mae llawer o bobl leol wedi manteisio ar y gwasanaeth hwn yn barod' – *Cyngor Cymuned Cil Y Cwm*

'Rydym yn croesawu'r ffocws ar ddiogelwch ar y ffordd a'r ymrwymiad i holl beiriannau tân y llinell flaen i gludo offer achub, a chytunwn y dylid gostwng y gyfradd bresennol o farwolaethau ac anafiadau ar ffyrdd Sir Benfro' - *Cyngor Sir Penfro*

'Mae'n dda gweld cynnydd yn y nifer o gynlluniau diffoddwyr tân ifanc, a dylid cefnogi cynlluniau pellach' - *Undeb y Diffoddwyr Tân Wrth Gefn*

'Rydym yn cymeradwyo'r ymdrechion i addysgu pobl ifanc, a gobeithiwn y bydd hyn yn atal llawer o ymosodiadau o losgi bwriadol' – *Cyngor Tref Llanwrtyd*

'Rydym yn croesawu ymrwymiad yr Awdurdod i ddarparu gwasanaeth 'mewn modd cynaliadwy', yn ogystal â chydnabod y 'niwed posib i'r amgylchedd y mae tân yn ei achosi'. Mae yna sgôp i gydweithio, i helpu eich awdurdod i gyflawni dau o'i amcanion, sef 'datblygu gwaith partneriaeth' a 'datblygu cynllunio i leihau risg'. Buasem yn fwy na bodlon trafod y peth ymhellach gyda chi' – *Cyngor Cefn Gwlad Cymru*

Cynigodd rai ymatebwyr gyngor ar sut i ymgynghori, neu fe wnaethant gynnig sylwadau nad oedd yn cymeradwyo safbwynt yr Awdurdod ar leihau risg, a rhoddir crynodeb isod:

Sylwadau Eraill ar Leihau Risg	Ymateb yr Awdurdod
'Mae'n rhaid parhau i fod yn onest ac yn agored wrth ymgynghori, mewn modd sensitif, i alluogi staff i deimlo'n hyderus am gyfeiriad y newid' – *Aelod o Staff*	Dyma amcan yr Awdurdod.
'Mae'n ymwneud yn llwyr ag arbed arian ar ddiwedd y dydd' – *Aelod o Staff*	Bwriad yr Awdurdod yw ailgyfeirio adnoddau i'r ardaloedd sy'n flaenoriaeth pennaf.
'Mae'r cynllun yn cynnwys geiriau hallt o ddatganiadau amhendant a honiadau nas cefnogwyd gan ffeithiau, am gyflawniadau'r Awdurdod, a ddosbarthwyd i gymunedau a mudiadau ar draws yr ardal gyfan. Am ba gost?' – *Cyngor Cymuned Llanbadarn Fawr (Powys)*	Mae'r Awdurdod yn dymuno – ac y mae gofyn iddo – ymgynghori â budd-ddalwyr ar draws ardal y Gwasanaeth. Mae gwybodaeth am Berfformiad a Gwella ar gael ar wefan yr Awdurdod, a bydd yn cael ei gynnwys yn y cynllun terfynol.
Mae diffyg manylion ac ystadegau'n ei gwneud hi'n amhosib barnu p'un ai fod gwelliannau wedi cael eu gwneud ai peidio, nac i ba raddau.' *Cyngor Cymuned Johnston*	Mae gwybodaeth am Berfformiad a Gwella ar gael ar wefan yr Awdurdod, a bydd yn cael ei gynnwys yn y cynllun terfynol.
'Dengys yr ymateb cyfyngedig i'r ymgynghoriad nad yw ymgynghori'n gweithio' – *Aelod o Staff*	Hysbysebwyd yr ymgynghoriad yn eang yn y wasg, ac roedd y cynllun ar gael ar draws ardal y Gwasanaeth. Bydd yr Awdurdod yn parhau i weithio gyda'r cymunedau i gymell atborth ar gynllunio i leihau risg.

Ystyriwyd yr holl wybodaeth yma gan yr Awdurdod, a bydd y sylwadau a ddarparwyd yn cyfarwyddo ac yn dylanwadu ar ein trefniadau i leihau risg, fel ein bod yn parhau i wneud ein cymunedau'n fwy diogel.

8.0 Canlyniadau'r Ymgynghoriad – Cynigion a Ymgynghorwyd yn eu Cylch yng Nghynllun Gweithredu Lleihau Risg Drafft 2009/2010

Roedd Cynllun Gweithredu Lleihau Risg Drafft 2009/2010 yn ymgynghori ynghylch dau brif gynnig

8.1 Cynnig 1 –
Adolygu'r opsiynau criwio yn ardal Abertawe wedi cyflwyno'r peiriannau newydd

Darparwyd peiriant achub cyrraedd yn uchel cyfun, sy'n cyfuno gallu diffodd tân ac achub gyda darpariaeth cyrraedd yn uchel, yng ngorsaf dân Gorllewin Abertawe. Mae hyn yn dileu'r angen am y peiriant cyrraedd yn uchel presennol a leolir yng ngorsaf dân Treforys, a bydd yn cael ei waredu yn 2008/2009. Oherwydd bod y peiriant cyrraedd yn uchel yn cael ei waredu, a bod Pympiau Achub yn cael eu darparu yn Ardal Reoli Abertawe, mae angen adolygu'r opsiynau criwio a'r ddarpariaeth achub arbenigol, a chynigwyd hyn yn y Cynllun Gweithredu Lleihau Risg Drafft.

Ymateb cymharol isel dderbyniodd y cynnig hwn a ymgynghorwyd yn ei gylch, ac roedd mwyafrif yr ymatebion yn cyfeirio at y penderfyniad i ddarparu peiriannau cyfun, penderfyniad a gymeradwywyd ac a weithredwyd gan yr Awdurdod eisoes. Fodd bynnag, fe wnaeth yr Awdurdod ystyried yr holl ymatebion yma, i sicrhau perthnasedd parhaus ei benderfyniadau cynt.

8.1.1 Cefnogaeth i'r Cynnig

Derbyniwyd rhai sylwadau cadarnhaol, yn dynodi bod angen adolygu'r trefniadau criwio nawr bod newidiadau o gynlluniau blaenorol yn cael eu cyflawni.

Meysydd a gefnogwyd gan yr ymatebwyr	Math o Ymatebydd	Nifer o Ymatebion
Mae'r cerbyd cyfun yn cael ei leoli yn yr ardal lle mae'r risg ar ei uchaf.	Aelod o'r Gwasanaeth Tân	1
Mae'n beth doeth adolygu'r trefniadau criwio yn ardal Abertawe, nawr bod y newidiadau a gyflwynwyd mewn cynlluniau blaenorol yn eu lle.	Undeb y Diffoddwyr Tân Wrth Gefn	1
Codwyd gan – Aelod o'r Gwasanaeth Tân, Cynghorau Cymuned ac Undeb y Brigadau Tân		

8.1.2 Gwrthwynebiad i'r Cynnig

Derbyniwyd sylwadau'n gwrthwynebu'r cynnig i adolygu'r trefniadau criwio gan staff:

Meysydd o Bryder yr Ymatebwyr	Ymateb yr Awdurdod Tân ac Achub	Nifer o Ymatebion
Bydd hyn yn gostwng y nifer o Ddiffoddwyr Tân ar ddyletswydd ar unrhyw adeg.	Mae'r trefniadau cynt wedi golygu bod angen staff ychwanegol i griwio peiriannau arbennig yn sylfaenol. Bydd y cerbyd newydd yn galluogi i'r un criw a pheiriant i ddarparu'r holl swyddogaethau yma.	2
Mae angen criw un pwrpas ar y Cerbyd Achub	Bydd y trefniadau newydd yn dileu'r angen am griw un pwrpas ar gyfer peiriannau arbennig.	1
Bydd y tendr achub yn cael ei waredu o Orsaf Dân Treforys am gost o fwy o ddiffoddwyr tân, a bydd yn cael ei amnewid gyda phympiau achub. Bydd hyn yn golygu bydd dau bwmp achub yn mynychu pob damwain ffordd, ac felly bydd yn lleihau'r cyflenwad tân yn ardaloedd Abertawe a Dyffryn Aman.	Mae darparu dau bwmp achub ar gyfer Gwrthdrawiadau ar y Ffordd yn rhoi gwell offer rhyddhau a chriwiau ychwanegol ac mae'n cynyddu'r gallu achub a gofal clwyfedigion.	2
Dylid cadw'r TL a'r Tendr Damweiniau yn ogystal â'r peiriant cyfun newydd.	Mae'n ddarpariaeth ddiangen.	1
Codwyd gan – Aelod o'r Gwasanaeth Tân, Cynghorau Cymuned ac Undeb y Brigadau Tân		

8.1.3 Ymatebion Cyffredinol am y Ddarpariaeth o Beiriannau Arbennig yn Ardal Abertawe

Hefyd, darparwyd sylwadau am y trefniadau ar gyfer darparu peiriannau achub cyrraedd yn uchel cyfun (CARP). Nid oedd hyn yn rhan o'r cynnig a ymgynghorwyd yn ei gylch, gan fod y trefniadau yma yn eu lle eisoes; fodd bynnag, fe wnaeth yr Awdurdod ystyried y sylwadau yma.

Meysydd o Bryder yr Ymatebwyr	Ymateb yr Awdurdod Tân ac Achub	Nifer o Ymatebion
Fe wnaeth yr adolygiad o beiriannau Cyrraedd Yn Uchel ddiystyru unrhyw atborth gan weithredwyr profiadol yn Nhreforys.	Fe wnaeth darparu peiriant newydd alluogi adolygiad o'r lleoliad gorau ar gyfer y cerbyd i gael ei gynnal. Rhoddwyd ystyriaeth lawn i farnau'r staff wrth ddod i benderfyniad.	1
Dylid hyfforddi'r holl ddiffoddwyr tân yn Ardal Reoli Abertawe i ddefnyddio'r CARP, er hydwythdedd. Mae angen cytuno ar lefelau o weithredwyr cymwys.	Mae'r holl ddiffoddwyr tân yng ngorsaf dân Gorllewin Abertawe wedi cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r peiriant. Hefyd, bydd hyfforddiant ymgyfarwyddo'n cael ei roi i staff o orsafoedd sy'n darparu minteioedd ar gyfer Gorllewin Abertawe.	2
Mae angen lleoli'r Cerbyd Achub yn Nhreforys, er mwyn cael mynediad yn hawdd i'r drafforddd.	Bydd Pwmp Achub yn cael ei leoli yn Nhreforys. Bydd darparu Cerbydau Achub Technegol mewn lleoliadau strategol yn cael ei ystyried yn ychwanegol i'r Pympiau Achub.	1

Ni fydd y CARP yn medru cyrraedd rhai ardaloedd o Orllewin Abertawe. Bydd y CARP yn cael trafferth mynd i ardaloedd gwledig.	Mae anawsterau o ran mynediad i rai ardaloedd o amgylch Gorllewin Abertawe wedi bodoli gyda'r cerbydau presennol hyd yn oed. Nodwyd yr ardaloedd yma, a chaiff cerbydau ychwanegol eu defnyddio.	2
Bydd peiriannau cyfun yn lleihau'r nifer o gerbydau brys a anfonir i ddigwyddiadau.	Bydd, fe fydd galluoedd pwmpio, cyrraedd yn uchel ac achub yn cael eu darparu ar yr un peiriant, a bydd hyn yn dileu'r angen am beiriannau ar wahân.	3
Bydd hyn yn lleihau'r nifer o beiriannau arbennig sydd ar gael ar yr un pryd.	Bydd darparu sawl swyddogaeth ar un cerbyd yn golygu y bydd yr holl swyddogaethau yma ar gael yn unrhyw ddigwyddiad mae'r peiriant yn ei fynychu, ac felly bydd yn lleihau'r angen i wneud cais am beiriannau ychwanegol. Bydd achosion lle mae galw am beiriannau ar yr un pryd yn cael eu darparu ar eu cyfer.	3
Ni fydd y CARP yn gweithredu'r Haf hwn fel y dywedwyd yn y Cynllun Gweithredu Lleihau Risg Drafft. Ni ellir dibynnu ar y cerbyd CARP.	Cwblhawyd yr hyfforddiant a bwriedir i'r cerbyd ddechrau gweithredu ar ddiwedd yr Haf. Profwyd problemau technegol, ond ymdriniwyd â'r rhain. Defnyddir y math hwn o beiriant yn effeithlon mewn gwasanaethau eraill.	3
Nid yw'r CARP yn darparu'r math gorau o gerbyd cyrraedd yn uchel	Mae'r cerbyd yn darparu gallu cyrraedd yn uchel sy'n diwallu anghenion y Gwasanaeth yn llwyr.	2
Nid yw'r CARP yn darparu'r cerbyd achub gorau.	Mae'r Cerbyd yn darparu'r gallu achub gorau ar gyfer gwrthdrawiadau ar y ffordd.	3
Tynnwyd matiau Marsh o'r Tendr Achub yn Nhreforys ac fe'u gosodwyd ar y bad yng Nghanol Abertawe, nad sydd â chriw sylfaenol.	Mae gosod yr offer yma ar y bad achub yn caniatáu i hyfforddiant ac offer ar gyfer digwyddiadau yn ymwneud â dŵr i gael eu darparu yn un lleoliad, ac mae'n sicrhau bod offer a gweithredyddion hyfforddedig yn cael eu darparu ar un uned.	2
Codwyd gan Ymatebwyr Anhysbys, Aelodau o'r Gwasanaeth Tân ac Undeb y Brigadau Tân		

8.1.4 Dadansoddi'r Ymatebion

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod angen criw un pwrpas ar gyfer peiriannau arbennig. Ystyriodd yr Awdurdod yr holl sylwadau, a daeth i'r casgliad fod darparu'r peiriant achub cyrraedd yn uchel cyfun yng Ngorllewin Abertawe, a'r ddarpariaeth o bympiau achub ar draws yr ardal, yn golygu y gellid gwaredu'r peiriannau ymroddedig yng ngorsaf dân Treforys. Roedd hyn yn golygu na fyddai angen y criwiau ychwanegol ar gyfer y peiriannau arbennig yma yn yr orsaf bellach.

Cymeradwyodd yr Awdurdod y byddai adolygiad o'r opsiynau criwio yn cael ei archwilio a'i gyflawni yn 2009/2010.

8.2 Cynnig 2 –
Symud yr amserau cychwyn a gorffen ar gyfer gorsafoedd criw dydd i gydfynd â'r adegau pan fod risg ar ei uchaf

Mae diffoddwyr tân llawn amser ar ddyletswydd yn y gorsafoedd criw dydd yn ystod oriau'r dydd, a thu allan i'r oriau yma mae'r criwiau'n ymateb i ddigwyddiadau o'u cartrefi. Cynigwyd y dylai'r oriau o argaeledd llawn amser adlewyrchu'r amserau prysuraf o weithgarwch. Mae gwahanol amserau cychwyn a gorffen ar gyfer gorsafoedd criw dydd yn bodoli ar draws y Gwasanaeth, a cheisiwyd barnau ar gyflawni gwelliannau i'r cyflenwad criw dydd.

Derbyniwyd nifer fawr o ymatebion, yn rhoi barnau am drefniadau mewn perthynas â'r amserau dyletswydd mwyaf effeithiol i staff criw dydd ac, yn arwyddocaol, derbyniwyd ymatebion ar lawer o ffactorau eraill sy'n cyfrannu at effeithlonrwydd gwaith y criwiau dydd. Cymharwyd y gwahanol broffiliau a lefelau o weithgarwch rhwng y gorsafoedd, ac adroddwyd am y gwahanol drefniant ar gyfer gwaith criw dydd a'r cyflenwad wrth gefn.

Derbyniwyd dros 50 o ymatebion am y trefniadau criw dydd, yn ogystal derbyniwyd dros 20 o ymatebion yn cyfeirio at leoli staff yn gyffredinol, a oedd yn effeithio ar griwiau dydd. Roedd y sylwadau yma'n cefnogi barn yr Awdurdod bod y trefniadau criw dydd yn effeithio ar drefniadau'r cyflenwad wrth gefn hefyd, a bod angen edrych ar sut mae'r rhain yn rhyngweithio â'i gilydd.

Darparwyd ymatebion manwl a deallus gan staff, fel cyflwyniadau unigol ac ar ran gorsafoedd.

8.2.1 Sylwadau Cadarnhaol

Sylwadau'r Ymatebwyr	Ymateb yr Awdurdod Tân ac Achub	Nifer o Ymatebion
'Cymeradwywch y cynnig i newid yr amserau cychwyn a gorffen mewn gorsafoedd criw dydd, i gydfynd â'r cyfnod pan fod risg a gweithgarwch ar eu huchaf.' 'Rydym yn cytuno gyda'r cynigion i newid amserau'r criw dydd i amserau pan fod risg ar ei uchaf, ond mae'n bosib y bydd rhai'n gwrthwynebu, felly, bydd angen cymhwyso amynedd, dyfeisgarwch a dealltwriaeth'.	Dyma amcan yr Awdurdod. Bydd pob agwedd arall o newid yr amserau cychwyn a gorffen yn cael eu hystyried yn ogystal.	9
Codwyd gan – Aelod o'r Gwasanaeth Tân, Cynghorau Tref a Chymuned, Awdurdod Unedol ac Ymddiriedolaethau Iechyd		

8.2.2 Sylwadau Negyddion

Sylwadau'r Ymatebwyr	Ymateb yr Awdurdod Tân ac Achub	Nifer o Ymatebion
'Mae yna ddiffyg gwybodaeth am y cynnig i newid yr amserau cychwyn a gorffen.'	Ni wnaethpwyd unrhyw gynigion yn y ddogfen, oherwydd ystyriwyd y byddai hynny'n rhy ragnodol. Darparwyd gwybodaeth am weithgarwch, ar gais gan orsafoedd, er mwyn medru darparu ymatebion deallus.	11
'Ni fydd y newidiadau'n gyfeillgar i deuluoedd.' 'Defnyddiwyd yr effaith ar ofal plant a'r amser a dreulir gyda'r teulu fel enghreifftiau o sut na fyddai unrhyw newidiadau'n gyfeillgar i deuluoedd.'	Mae gan yr Awdurdod drefniadau sy'n diwallu'r ddeddfwriaeth ar waith 'teulu gyfeillgar', megis caniatâu staff i weithio oriau hyblyg, a bydd yn ystyried cydbwysedd rhwng gwaith / bywyd y staff wrth gynnig unrhyw newidiadau. Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu hystyried ar eu rhinweddau unigol.	18
'Mae'r amserau criw dydd presennol ar gyfer rhai gorsafoedd yn cyd-fynd â'u proffil gweithgarwch.'	Yn rhai gorsafoedd mae eu horiau presennol yn effeithlon. Dengys rhai gorsafoedd welliannau sylweddol trwy newid yr amserau cychwyn a gorffen.	8
'Bydd symud yr amser cychwyn yn gwneud y system yn un adweithiol ac nid yn un rhagweithiol, a bydd yn effeithio ar waith Diogelwch yn y Gymuned.'	Bydd unrhyw newidiadau i'r oriau dyletswydd yn ystyried yr effaith ar Waith Diogelwch yn y Gymuned.	5
Codwyd gan – Aelodau o'r Gwasanaeth Tân, Undeb y Brigadau Tân, Cyngor Cymuned ac Ymatebwyr Anhysbys		

8.2.3 Sylwadau Cyffredinol Am Leoli Staff Mewn Gorsafoedd Criw Dydd

Yn arwyddocaol, darparodd llawer o'r ymatebwyr sylwadau am y trefniadau criw dydd yn gyffredinol, ac fe wnaethant grybwyll materion eraill yr oeddent yn teimlo y dylid eu hystyried. Isod, ceir enghreifftiau o'r sylwadau a ddarparwyd ar y trefniadau criw dydd.

Sylwadau Ymatebwyr	Nifer o Ymatebion
'Ar hyn o bryd, defnyddir hwyr y nos i symud cerbydau a chynnal Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref mewn lleoliadau anghysbell'.	1
'Bydd angen i unrhyw newid i amserau'r criw dydd ddwyn i ystyriaeth amserau bwyd a'r ddarpariaeth o gogyddion.'	1
'Er fy mod i o blaid adolygu'r amserau cychwyn a gorffen mewn Gorsafoedd Criw Dydd, i gydfynd â'r adegau pan fod risg ar ei uchaf, buaswn yn argymell bod ystyriaeth bellach yn cael ei roi i Orsafoedd Powys, oherwydd y gweithgareddau cefnogi/hyfforddi a ddarperir ar gyfer ein cydweithwyr RDS, ac ni ddylid archwilio'r lefelau o weithgarwch yn unig'	1
'Gyda golwg ar amserau cychwyn a gorffen y gorsafoedd criw dydd, pam na edrychwyd ar y system criw dydd gyfan, megis system criw dydd safonol ar draws y gwasanaeth, yn cynnwys gorsafoedd Powys?'	2
'Dylai'r gorsafoedd criw dydd weithio eu nosweithiau hwyr ar yr un nosweithiau ag y mae'r criwiau wrth gefn yn ymarfer, er mwyn rhoi cymorth.'	1
'Bydd cychwyn yn hwyrach yn y dydd yn golygu bydd angen i'r staff criw dydd sy'n darparu cyflenwad wrth gefn i ymateb i'r orsaf yn ystod y cyfnodau pan fod traffig ar ei brysuraf e.e. 09:00 i 12:00 awr. Bydd hyn yn cynyddu'r amser a gymerir i ymateb. Mae llai o draffig gyda'r nos.'	2
'Tra ei bod hi'n bosib y bydd symud yr amserau'n bodloni'r agwedd o ymyrraeth o ran ein rôl, mae'n bosib na fydd yn briodol yn y cyd-destun ehangach. I'r diben hwn, hoffem feddwl y byddai dadansoddiad o gostau / manteision cyflawn a chyfannol, o effaith symud amserau'r sifftiau ym mhob agwedd o gyflawni gwasanaeth, yn cael ei gynnal.	6
'Dylid teilwrio'r newidiadau ar gyfer pob gorsaf, wedi dadansoddi'r ffactorau i gyd.'	1
'Gallai peth o'r gwaith nad sy'n hanfodol, megis symud cerbydau, cyflenwi storfeydd a symud offer ayb., gael ei wneud gan staff sy'n sifiliaid.'	1
Ymatebion gan Aelodau o'r Gwasanaeth Tân ac Aelodau o'r Cyhoedd	

8.2.4 Dadansoddi'r Ymatebion ar Griwiau Dydd

Roedd y sylwadau yma'n cefnogi barn yr Awdurdod, bod angen edrych ar wahanol fathau o griwio, a sut mae pob un yn rhyngweithio â'i gilydd. Fe wnaeth yr amryw o wahanol systemau sydd mewn lle ar draws yr ardal, a'r gwahanol ffyrdd o weithio, ddynodi bod angen cynnal adolygiad cynhwysfawr i gyflawni'r canlyniadau gorau. Wrth ystyried yr wybodaeth yma, teimlodd yr Awdurdod nad oedd hi'n briodol ystyried yr amserau cychwyn a gorffen ar gyfer gorsafoedd criw dydd mewn unigedd, heb roi ystyriaeth ofalus i'r holl drefniadau eraill sy'n bodoli i gefnogi criwiau dydd ar draws ardal gyfan y Gwasanaeth yn ogystal.

Cymeradwyodd yr Awdurdod y dylid ymgymryd ag adolygiad llawn o'r holl drefniadau sy'n bodoli i gefnogi criwiau dydd yn 2009/2010, er mwyn darparu'r cyflenwad gorau, yn unol â'r risg ac anghenion y Gymuned. Roedd yr Awdurdod yn cydnabod, oherwydd y gwahanol broffiliau risg a gweithgarwch ar draws ardal y Gwasanaeth, y gellid ystyried trefniadau wedi'u teilwrio er mwyn darparu'r ateb gorau.

9. Sylwadau ar Gynllun Gweithredu Lleihau Risg y Llynedd

Roedd Cynllun Gweithredu Lleihau Risg Drafft 2009/2010 yn cynnwys y diweddaraf am gyflawniadau'r Awdurdod yn ystod oes y cynllun tair blynedd. Nid oedd y meysydd yma'n cael eu cynnig i ymgynghori yn eu cylch, ond roedd yr Awdurdod yn dymuno cynnwys adroddiad ar gynnydd y prosiectau yng Nghynllun Gweithredu Lleihau Risg Drafft 2009/2010. Fodd bynnag, derbyniwyd nifer sylweddol o ymatebion yn ymwneud â'r newidiadau yma. Fe wnaeth yr Awdurdod ystyried yr ymatebion, ac roedd yn fodlon bod ei benderfyniad i wneud gwelliannau i'r Gwasanaeth yn y meysydd yma'n dal i ddarparu'r opsiwn gorau i leihau risg. Gorchmynnodd yr Awdurdod y dylai'r holl sylwadau a ddaeth i law gael eu hanfon at y gweithgor neu'r swyddog priodol, i sicrhau eu bod yn dwyn y sylwadau a dderbyniwyd i ystyriaeth.

10.0 Casgliadau

Mae'r Awdurdod yn dal i dderbyn cymorth gan sefydliadau partner ar ei strategaethau cynllunio i leihau risg, a bydd yr wybodaeth a ddarparwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn yn cyfarwyddo ein strategaethau, yn enwedig ym meysydd gweithgareddau sy'n parhau ar leihau llosgi bwriadol, gwrthdrawiadau ar y ffordd a gweithio gyda phobl ifanc. Mae cynaladwyedd yn un maes yr ydym yn canolbwyntio arno, a bydd angen i ni gydweithio gyda'n partneriaid sydd â phrofiad yn y maes, i gyfarwyddo ein polisïau ar gynaladwyedd.

Dengys yr ymatebion ar leoli staff fod hwn yn faes sydd o ddiddordeb mawr i'n holl fudd-ddalwyr, a bydd y gwaith o sicrhau bod gennym y bobl gywir yn y lle cywir ar yr amser cywir yn parhau i mewn i'r cyfnod adroddi nesaf ar gyfer cynllunio i leihau risg.

Roedd y ddau faes a ymgynghorwyd yn eu cylch yn ymwneud â meysydd penodol o leoli staff, fodd bynnag, darparwyd sylwadau ar leoli staff yn gyffredinol ac ar feysydd a ymgynghorwyd yn eu cylch eisoes, a chafodd y rhain eu hystyried er nas adroddwyd amdanynt i fanylder yma.

10.1 Adolygu'r opsiynau criwio yn ardal Abertawe wedi cyflwyno peiriannau newydd

Roedd y nifer o ymatebion a oedd yn cynnig sylwadau am yr adolygiad o swyddi wedi cyflwyno'r peiriannau newydd yn ardal Abertawe'n gymharol isel. Roedd rhai o'r ymatebion a dderbyniwyd yn cyfeirio at benderfyniad yr Awdurdod i ddarparu peiriannau cyfun.

Cafodd yr holl wybodaeth a ddarparwyd ei ystyried gan yr Awdurdod, ac roeddent yn fodlon bod angen adolygu'r opsiynau criwio wedi cyflwyno'r peiriannau newydd. Cymeradwyodd yr Awdurdod y byddai'r adolygiad hwn yn mynd yn ei flaen, ac argymhellodd y dylai'r gwaith gael ei wneud yn 2009/2010.

10.2 Symud yr amserau cychwyn a gorffen ar gyfer gorsafoedd criw dydd i gyd-fynd â'r adegau pan fod risg ar ei uchaf

Derbyniwyd nifer fawr o ymatebion yn rhoi barnau am drefniadau parthed â'r amserau dyletswydd mwyaf effeithiol ar gyfer staff criw dydd ac, yn arwyddocaol, derbyniwyd ymatebion am y niferus ffactorau eraill sy'n cyfrannu at effeithlonrwydd gwaith criw dydd. Yn ogystal, derbyniwyd ymatebion yn cyfeirio at leoli staff yn gyffredinol, a oedd yn effeithio ar griwiau dydd. Roedd y sylwadau yma'n cefnogi barn yr Awdurdod bod trefniadau'r criwiau dydd yn effeithio ar drefniadau'r cyflenwad wrth gefn, a bod angen edrych ar sut maen nhw'n rhyngweithio â'i gilydd.

Wrth ystyried yr wybodaeth yma, roedd yr Awdurdod yn teimlo nad oedd hi'n briodol ystyried yr amserau cychwyn a gorffen mewn gorsafoedd dydd mewn unigedd, heb roi ystyriaeth ofalus i'r holl drefniadau eraill a oedd yn bodoli i gefnogi criwiau dydd ar draws holl ardal y Gwasanaeth yn ogystal.

Cymeradwyodd yr Awdurdod y dylid cynnal adolygiad llawn o'r holl drefniadau sy'n bodoli i gefnogi criwiau dydd yn 2009/2010, er mwyn darparu'r cyflenwad gorau yn unol â'r risg ac anghenion y Gymuned. Roedd yr Awdurdod yn cydnabod, oherwydd y gwahanol broffiliau risg a gweithgarwch ar draws ardal y Gwasanaeth, y gellid ystyried trefniadau wedi'u teilwrio er mwyn darparu'r ateb gorau.

10.3 Sylwadau Eraill A Wnaed Yn Ystod Yr Ymgynghoriad

Derbyniwyd nifer o ymatebion yn ymwneud â rhannau o'r Cynllun a oedd tu allan i'r ymgynghoriad. Ystyriwyd yr holl sylwadau gan yr Awdurdod, ac fe'u hanfonodd i'r gweithgor neu'r swyddog priodol.